

SL(5)602 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 7) 2020

Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 (y "prif Reoliadau").

Mae'r diwygiadau:

- yn darparu na chaiff unrhyw berson, heb esgus rhesymol, ymwneud â threfnu digwyddiadau cerddorol penodol sydd heb eu trwyddedu (o fewn yr ystyr a roddir yn rheoliad 14B o'r prif Reoliadau fel y'i mewnosodir gan reoliad 2(7) o'r Rheoliadau hyn). Mae person sy'n methu â chydymffurfio â'r cyfyngiad yn cyflawni trosedd o dan reoliad 20(1)(b) o'r prif Reoliadau, a chaiff swyddog gorfodaeth ddyroddi hysbysiad cosb benodedig gwerth £10,000 o dan reoliad 21 i unrhyw un y mae'r swyddog yn credu'n rhesymol ei fod wedi cyflawni'r drosedd,
- yn darparu bod gan bobl esgus rhesymol (o dan reoliad 14 o'r prif Reoliadau) i ymgynnull o dan do i ymweld â phreswlydd mewn cartref gofal, hosbis, neu lety diogel i blant,
- yn egluro bod gan bobl hefyd esgus rhesymol i ymgynnull i gael gafael ar wasanaethau addysgol (o dan do fel esgus rhesymol o dan reoliad 14 o'r prif Reoliadau, ac yn yr awyr agored fel esgus rhesymol o dan reoliad 14A o'r Rheoliadau hynny, fel ei gilydd),
- yn caniatáu i gasinos agor, ond rhaid cymryd mesurau i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws yn y fangre.
- yn gwneud newidiadau technegol eraill, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ganlyniadol ar y diwygiadau eraill a wneir gan y Rheoliadau hyn.

Gweithdrefn

Gwneud cadarnhaol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau o fewn 28 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gwnaed er mwyn iddynt barhau i gael effaith.



Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Nii fu ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn esbonio mai'r rheswm am hyn yw'r "bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n codi o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, gan gynnwys yr angen i lacio unrhyw gyfyngiadau nad ydynt bellach yn gymesur â'r ymateb hwnnw".

Ymhellach, esbonnir "yn ehangach, [y] cafodd unigolion a busnesau wybod am y cyfyngiadau yn y Rheoliadau gwreiddiol drwy ddarllediadau gwybodaeth gyhoeddus parhaus ar raddfa fawr ledled y DU, gan gynnwys gan Brif Swyddog Meddygol Cymru, Prif Weinidog Cymru a'r Prif Weinidog. Wrth wneud y Rheoliadau yr wythnos hon cafwyd trafodaethau parhaus â'r Prif Gwnstabiliaid a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddau yng Nghymru ynghylch y tebygolrwydd y bydd digwyddiadau cerddoriaeth didrwydded yn cael eu cynnal yng Nghymru, a'r risg y bydd trefnwyr yn symud digwyddiadau o Loegr i Gymru pe na bai darpariaeth gyfatebol yn cael ei gwneud ar gyfer Cymru. Mae pob un o'r pedwar heddlu o blaid cyflwyno'r drosedd newydd drwy Reoliadau'r wythnos hon."

Ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd yr angen i'w rhoi ar waith ar fyrder fel rhan o'r ymateb parhaus i fygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd. Fodd bynnag, mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod crynodeb o asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb wedi'i lunio ac y bydd yn cael ei gyhoeddi.

Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Ni nodwyd unrhyw oblygiadau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Ymateb y Llywodraeth

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.



Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 14 Medi 2020 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd uchod.

